Ysgol Gymraeg Llangennech

Maes y Dderwen, Llangennech, SA14 8YB
gmanderson@ysgolccc.org.uk
http://www.ysgolgymraegllangennech.cymru

Sesiynau "Ailgydio, dal i fyny a pharatoi"- gwybodaeth ysgol

Annwyl Rieni,

Rydym yn gobeithio eich bod i gyd yn ddiogel ac yn iach. Hoffem ddiolch i chi am gadw mewn cysylltiad â ni yn ystod y cyfnod heriol hwn ac am eich cyfranogiad a'ch cefnogaeth i ddysgu eich plentyn. Diolch yn ogystal i chi am gwblhau'r holiadur diweddar. Bydd hyn yn sicr yn gymorth wrth i ni symud ymlaen gyda dysgu adref.

Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol. Daeth Canllawiau i law ar ddydd Mercher 10th Mehefin gan Lywodraeth Cymru ac rydym bellach yn ymateb i hynny. Mae gennym lawer iawn o waith i'w wneud eto cyn i ni gwblhau'r manylion, ond byddwn yn anfon diweddariadau pellach atoch cyn gynted â phosibl. **Wrth baratoi ailagor ysgolion am 4 wythnos o 29 Mehefin, gallwn egluro ychydig o bwyntiau allweddol.**

Grwpiau dosbarth neu ' swigod ': Yn ystod y bloc 4 wythnos, rydym yn gobeithio cynnig 4 sesiwn diwrnod yn yr ysgol i bob disgybl o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ar gyfer **'cofrestru, dal i fyny, paratoi**'. Yn ystod y bloc 4 wythnos, rydym yn gobeithio cynnig 1 diwrnod i ddisgyblion y Dosbarth Meithrin yr ysgol ar gyfer **'cofrestru, dal i fyny, paratoi**'. Bydd disgyblion mewn grwpiau bach, o fewn ystafell ddosbarth a neilltuir. Byddant yn aros yn yr ystafell ddosbarth hon gyda'r grŵp trwy gydol hyd y sesiwn yn yr ysgol neu gallant fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gyda'r un grŵp. Bydd mynediadau derbyn a gadael ar gyfer pob grŵp yn cael eu marcio'n glir.

Ymbellhau cymdeithasol: bydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol lynu at reolau ymbellhau cymdeithasol a byddwn yn cefnogi eich plentyn i ddeall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw, eu cyfoedion, a'u hathrawon. Bydd codi arwyddion cymdeithasol o amgylch yr ysgol yn helpu i atgoffa pawb o'r disgwyliadau hyn. Rydym yn gofyn yn garedig i chi barchu hyn wrth ollwng a chasglu eich plentyn, gan fod angen i ni gymryd pob Mesur i leihau nifer y bobl sy'n ymgynnull y tu allan i'r ysgol. Er diogelwch pawb, bydd ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu monitro'n llym a dim ond am resymau hanfodol/brys y cânt eu caniatáu. Bydd amserau cyrraedd a gadael yr ysgol yn cael eu hamrywio ychydig o amgylch amserau arferol yr ysgol 8.45 – 3.05 y.p.

Golchi dwylo: bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi/diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Bydd y staff yn modelu'r ffordd gywir o olchi dwylo ac yn goruchwylio'r disgyblion wrth wneud mewn modd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn ogystal, bydd gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u trefnu a'u sefydlu o gwmpas yr ysgol.

Capasiti ac amserlen ysgolion: Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai **mwy nag un** rhan o dair o gyfanswm y disgyblion fod ar safle'r ysgol ar unrhyw adeg. Rydym wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyfrifo faint o ddisgyblion y gallwn eu cael yn ddiogel ar y safle ar unrhyw un adeg, gan ystyried yr arwynebedd llawr a chynllun yr adeilad. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar amserlen ddrafft a byddwn yn ei rhannu cyn gynted â phosibl. Er mwyn i ni wybod yn union y niferoedd sydd yn ddychwelyd, gofynnaf yn garedig iawn i chi ymateb i'r holiadur a fydd yn dod allan maes o law.

Gorsafoedd gwaith: bydd pob plentyn yn cael lle ar ei ddesg ei hun a'i gadair a bydd angen iddynt weithio o fewn y gofod hwn gymaint ag y bo modd. Bydd pob plentyn yn cael pecyn o adnoddau yn yr ysgol, i'w ddefnyddio yn unig. Peidiwch ag **anfon eitemau diangen** o'ch cartref.

Glanhau: bydd cyfundrefnau clanhau yn cael eu gwella'n sylweddol, gyda glanhau arwynebau y cyffyrddir arnynt yn rheolaidd, dolenni drysau, toiledau ac ati yn ystod y dydd.

Gwisg ysgol: ni fydd disgwyl i'r disgyblion wisgo gwisg ysgol. Mae canllawiau'n awgrymu bod disgyblion yn gwisgo dillad sy'n addas ar gyfer amgylchedd yr ysgol, yn gyfforddus ac yn hawdd i'w golchi. Yn ddelfrydol, dylid golchi dillad a wisgir i'r ysgol wrth ddychwelyd adref.

Bwyd a diod: bydd pob **cegin ysgol yn y Sir yn cael ei chau y tymor hwn.** Felly, bydd angen i bob disgybl ddod â'u pecyn cinio, byrbrydau a diod eu hunain i'r ysgol. Bydd cyfleusterau ar gyfer llenwi poteli dŵr. (Mae hyn yn cynnwys dysgwyr PYDd, gan fod taliadau'n mynd yn uniongyrchol at deuluoedd pellach).

Presenoldeb: Os yw rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei barchu. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na chaiff unrhyw ddirwyon eu rhoi ar hyn o bryd. Bydd dysgu o bell yn parhau

ar gyfer pob disgybl ac mae'n hanfodol bod disgyblion yn ymgysylltu â hyn. Ni ddylai disgyblion sy'n cael llythyr cysgodi fynychu'r ysgol.

Disgyblion symptomatig: Os yw disgybl yn dangos symptomau o Covid 19 tra'i fod yn yr ysgol, bydd ystafell ynysu ar gael iddo/i. Cysylltir â'r rhieni a disgwylir iddynt gasglu eu plentyn o'r ysgol yn syth. Caiff yr ardaloedd lle bu'r plentyn eu cydnabod ac yn cael eu glanhau'n drylwyr cyn eu hailddefnyddio, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cytundeb cartref-ysgol: Bydd cytundeb ysgol cartref yn cael ei adolygu (i ddilyn). Bydd hwn yn amlinellu disgwyliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch ac ymgysylltu â dysgu.

Darpariaeth ofal: bydd ein hysgol yn parhau i gefnogi disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth gofal plant hwb ar hyn o bryd o **8 y.b. tan 6 y.h.** ***Ni fydd mynediad i'r HWB GOFAL wedi 8.30 y.b***. Fodd bynnag, **Sylwch y dylai rhieni barhau i wneud pob ymdrech i ofalu am blant yn y cartref ar yr adeg hon.** Os oes angen canolfan, daliwch ati i archebu drwy ddefnyddio system archebu Sir Gaerfyrddin fel yr ydych wedi bod hyd yma. **Bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael yn y ddarpariaeth gofal HWB a bydd meini prawf i'r lleoliadau hyn.**

Asesu risg: bydd yr ysgol yn cydymffurfio â pholisi asesu risg Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-diolgeu-addysg-covid-19

Mae'n hanfodol nad yw unrhyw blentyn yn cael ei anfon i'r ysgol os yw'n sâl ac yn dangos unrhyw un o'r tri symptom Covid-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl); neu Os ydynt hwy, neu aelod o'r aelwyd, wedi profi'n bositif am Covid-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i liniaru a lleihau risgiau cyn belled ag y bo'n bosibl yn ein hysgol. Bydd mesurau yn cynnwys cyfleoedd mynych i olchi dwylo, cyfyngu'n llym nifer y disgyblion a'r oedolion ar safle'r ysgol, ymbellhau cymdeithasol a rota glanhau gaeth. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i staff na disgyblion wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ar yr adeg hon, ac eithrio mewn achosion lle mae ymbellhau cymdeithasol yn cael ei beryglu, ee. cymorth cyntaf, cymorth â mynd i'r toiled lle mae pecynnau gofal a chymorth pwrpasol yn mynnu bod angen hynny.

Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i adolygu ei darpariaeth yn unol â chanllawiau statudol a gwneud diwygiadau i'w pholisi asesu risg pan a lle bo angen.

Pontio blwyddyn 6: Mae nifer o ddiwrnodau penodol wedi eu neilltuo ym mis Medi ar gyfer sesiynau pontio i flwyddyn 6 i'w hysgol uwchradd. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn dilyn.

Profiadau allweddol: edrychwn ymlaen at groesawu eich plant yn ôl i'r ysgol a byddant yn canolbwyntio ar lesiant yn ystod y sesiynau gwerthfawr hyn ' ail-gydio, dal i fyny a pharatoi '. Bydd disgyblion yn gallu cysylltu â'u cyfoedion a rhannu profiadau, gan dreulio amser yn y grŵp dosbarth a thu allan ar dir yr ysgol. Bydd cyfle i'r athro dosbarth, neu oedolyn cyfarwydd, **gefnogi unrhyw faterion allweddol** sy'n codi gyda dysgu'r plentyn, er mwyn gwneud y gorau neu wella'r trefniadau dysgu yn y dyfodol. Bydd yn gyfle pwysig i bawb ymgyfarwyddo â'n ffyrdd newydd o weithio, a fydd yn cynnwys dull ' dysgu cyfunol ' rhwng y cartref a'r ysgol. Gweler canllawiau Llywodraeth Cymru am fwy o fanylion:

https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith na chaiff eich holl gwestiynau eu hateb yn y llythyr hwn. Gweler y tudalennau 'cwestiynau cyffredin' ar wefan Sir Gaerfyrddin a allai eich cefnogi gyda'ch ymholiadau: www.sirgar.llyw.cymru/addysg. Fel arall, cysylltwch â ni fel y gallwn drafod eich ymholiadau mewn perthynas â'r mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith.

Fel tîm yr ysgol, gallwn fod yn dawel ein meddwl y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod profiad dychwelyd i'r ysgol mor ddiogel ac mor bleserus â phosibl i'ch plentyn.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn y mater hwn. Byddwn yn ymdrechu i'ch sicrhau eich bod yn ymglymedig ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses.

Yn gywir,

Gary Anderson